

Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd ymyriadau sy'n gwneud cartrefi'n gynhesach ac yn rhatach i'w cynhesu, ar gyfer aelwydydd sydd mewn tloedi tanwydd mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell

Deborah Edwards, Judit Csontos, Liz Gillen, Judith Carrier, Ruth Lewis,
Alison Cooper, Adrian Edwards

Y Cefndir

Mae'r argyfwng costau byw wedi bod yn amlwg yn y DU ers dechrau 2021. Mae byw mewn ardal wledig yn aml yn gysylltiedig â chostau ychwanegol o'u cymharu ag ardaloedd trefol.

Ymhlith y rhesymau dros hynny mae'r rhain:

- Cartrefi nad ydynt wedi'u cysylltu â chyflenwad nwy prif gyflenwad
- Defnyddio olew drud neu nwy petroliwm ar gyfer gwresogi
- Hen stoc tai mewn ardaloedd gwledig
- Adeiladau sydd heb eu hinswleiddio'n dda, a systemau gwresogi llai effeithlon

Gellir diffinio tloedi tanwydd fel hyn: **aelwyd sy'n gwario mwy na 10% o'u hincwm ar danwydd ar gyfer gwresogi a chysur boddhaol ac ar dalu am yr holl wasanaethau ynni.**

Nod yr Astudiaeth

Pennu effeithiolrwydd ymyriadau sy'n gwneud cartrefi'n gynhesach ac yn rhatach i'w cynhesu ar gyfer aelwydydd sydd mewn tloedi tanwydd mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell.

Dull

Cafodd 14 astudiaeth ac wyth ffynhonnell o lenyddiaeth lwyd eu cynnwys yn yr adolygiad, a gyhoeddwyd rhwng 2007 a 2022.

Canlyniadau

		Prif ganlyniadau					
		Effeithlonrwydd ynni (e.e. graddio yn dilyn dull Y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP), graddio â sêr)	Tymheredd neu gysur thermol	Biliau / costau ynni	Faint o ynni a ddefnyddir	Newid mewn ymddygiad sy'n gysylltiedig ag ynni	Tloedi tanwydd
Ymyriadau	Gwelliannau i'r cartref / ôl-ffitio	Wedi gwella	Wedi cynyddu	Dim newid			
	Amnewid bylbiau golau a gwresogyddion trydan	Wedi gwella			Trydan: Wedi gostwng / Nwy: Dim newid		
	Gosod gwres canolog		Dim newid	Wedi gostwng			
	Cyngor			Wedi gostwng			
	Cyngor gydag offer monitro			Wedi gostwng		Wedi gwella	
	Cyngor ac atgyfeirio ar gyfer gwelliannau i'r cartref		Wedi cynyddu	Wedi gostwng			
	Arbed (gwelliannau i'r cartref)		Wedi cynyddu	Wedi gostwng	Nwy: Wedi gostwng		
	Nest (gwelliannau i'r cartref a cyngor)			Wedi gostwng			
	Cymorthdaliadau						Dim newid

Dehongliad

Arweiniodd y rhan fwyaf o ymyriadau a oedd yn canolbwyntio ar **wella cartrefi (inswleiddio allanol, waliau ceudod neu inswleiddio llofft, gosod deunyddiau gwrth-ddrafft)** neu gyngor sy'n gysylltiedig ag ynni at rywfaint o welliant mewn canlyniadau, megis **tymheredd dan do uwch, lleihau costau ynni neu wella effeithlonrwydd o ran ynni.** Fodd bynnag, dylid dehongli'r canlyniadau yn ofalus, gan fod **sicrwydd o ran y dystiolaeth yn isel iawn** oherwydd ansawdd yr astudiaethau a gynhwysir. Mae'n bosibl, gydag astudiaethau ymchwil newydd, y gallai canfyddiadau'r adolygiad cyflym hwn newid.

Goblygiadau ar gyfer polisiau ac ymarfer

- Mae angen treialon rheoledig o ansawdd uchel sydd wedi'u datblygu'n dda i ymchwilio i effeithiolrwydd a chost-effeithiolrwydd mesurau a chyngor yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni.
- Dylai ymchwil yn y dyfodol ymchwilio i ba ymyriadau sydd fwyaf effeithiol ym mha fathau o dai mewn ardaloedd gwledig i helpu i dargedu ymyriadau yn well.
- Mae angen i lunwyr polisiau a chyrrff **cyllido wneud buddsoddiadau pellach mewn ymchwil sy'n canolbwyntio ar fesurau i liniaru tloedi tanwydd, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddadansoddiadau economaidd.**